

# COMISIYNWYR YR HEDDLU A THROSEDDAU

## BWLETIN COMISIYNWYR YR HEDDLU A THROSEDDAU CYMRU

### Rhif 12 – 27 Medi 2012

Y bwletin hwn yw'r deuddegfed a'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau rheolaidd i'ch hysbysu ynglŷn â datblygiadau i gyflwyno comisiynwyr yr heddlu a throseddau (PCCs) yn Nhachwedd 2012. Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys:

- Diweddariad ar gyfathrebiadau PCC Y Swyddfa Gartref
- Gwybodaeth am Reoliadau gwahardd PCP a osodwyd yn ddiweddar
- Diweddariad ar ariannu Paneli'r Heddlu a Throseddau
- Diweddariad APCC ar ddigwyddiad cenedlaethol PCC; a gwefan yr ymgeiswyr
- Erthygl, a ysgrifennwyd gan Marion Sandwell o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (YJB), ar ddatblygu cysylltiadau rhwng PCCs a gwasanaethau troseddau ieuencid.
- Gwybodaeth a ddarparwyd gan y prosiect Cymunedau Diogelach i'r Dyfodol ar waith sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd.
- Adborth o'r gynhadledd genedlaethol ddiweddar, Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM)
- Manylion am daflenni ffeithiau 'Beth sy'n Gweithio' yr HMIC ar gyfer ymgeiswyr PCC; a
- Gwobrau Tilley

### Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau Diweddariad cyfathrebiadau

#### Ymgyrch genedlaethol PCC Y Swyddfa Gartref

Bydd Y Swyddfa Gartref yn cynnal ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â PCCs gan lansio yn gynnar ym mis Hydref. Petaech yn dymuno defnyddio ein hymgyrch yn lleol, byddwn yn rhoi asedau'r ymgyrch (PDF o bosteri a hysbysebion y wasg, hysbysebion digidol) ar gael ar wefan Y Swyddfa Gartref unwaith y byddwn wedi lansio'r ymgyrch. Sicrhewch eich bod yn ymweld â [www.homeoffice.gov.uk/pcc](http://www.homeoffice.gov.uk/pcc) ble y gwelwch ein holl ddiweddariadau newydd. Bydd taflen cerdyn credyd wedi ei argraffu ar gael i bartneriaid ei ddefnyddio a'i ddsbarthu. Bydd hyn ar gael o ddechrau mis Hydref ymlaen.

**Archebwch ar-lein** 0870 241 4680 (pwyswch '0' ar eich allweddabed i siarad â thîm cyhoeddiadau'r Swyddfa Gartref)

**E-bost archebu:** [homeoffice@prolog.co.uk](mailto:homeoffice@prolog.co.uk)

Dyfynnwch PCC BCE ar gyfer archebion o'r cerdyn yn Saesneg

Dyfynnwch PCC BCE ar gyfer archebion o fersiwn Gymraeg o'r cerdyn

Cysylltwch â [matthew.mitchell2@homeoffice.gsi.gov.uk](mailto:matthew.mitchell2@homeoffice.gsi.gov.uk) os gwelwch yn dda os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.

#### Llyfryn ar-lein ymgeisydd ac argraffu yn ôl y galw

Mae gwaith i gynhyrchu'r adnodd llyfryn ar-lein ymgeisydd ac argraffu yn ôl y galw yn parhau i ddatblygu. Bydd y wefan ar gael yn gynnar ym mis Hydref gan roi'r gallu i'r cyhoedd danysgrifio i nodyn e-bost fydd yn eu hysbysu pan fydd manylion llawn cyfeiriadau'r ymgeiswyr ar gael ar y wefan.

Mae Swyddogion Canlyniadau Ardal yr Heddlu (PAROs) yn gyfrifol am sicrhau bod cyfeiriadau ymgeiswyr ar gael ar wefan yr ymgeiswyr erbyn 26ain o Hydref. Bydd llyfrynnau copi caled ar gael i'w harchebu ymlaen llaw hefyd pan fydd y ganolfan alwadau argraffu yn ôl y galw yn dod yn fyw yn gynnar ym mis Hydref. Hyrwyddir y wefan a rhif y ganolfan alwadau trwy ymgyrch Y Swyddfa Gartref yn ogystal â thrwy lyfryn Y Comisiwn Etholiadau a ddsberthir i bob cartref o 22ain Hydref ymlaen. Bydd y PAROs yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaethau hyn ar gardiau pól hefyd.

## Ymgyrch etholiadau PCC Y Comisiwn Etholiadau

Bydd ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus Y Comisiwn Etholiadau ar gyfer etholiadau'r PCC yn cael ei lansio ar 22ain Hydref ac yn rhedeg hyd at y diwrnod pól ar 15 Tachwedd. Byddwn y gwaith yn canolbwyntio ar:

- Beth yw pwrpas yr etholiadau PCC a pha bwerau fydd gan y PCCs;
- Sut i fwrw pleidlais ddirgel o dan y Bleidlais Atodol;
- Pa bryd y cynhelir yr etholiadau; a
- Sut i gael gwybodaeth bellach, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn ag ymgeiswyr.

Bydd gwaith ymgyrch yn cynnwys:

- Llyfryn a yrrir i bob cartref yn y 41 ardal yng Nghymru a Lloegr ble y cynhelir yr etholiadau;
- Ymgyrch deledu, radio a'r wasg i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r etholiadau, hysbysu pobl am y llyfryn y byddant yn ei gael a rhoi manylion y wefan a'r llinell gymorth ble y gall pobl fynd i gael rhagor o wybodaeth am yr etholiadau a gwefan ymgeiswyr/gwasanaeth argraffu yn ôl y galw;
- Bydd yr ymgyrch yn arwain pobl at ragor o wybodaeth am yr etholiadau ar [www.aboutmyvote.co.uk](http://www.aboutmyvote.co.uk) neu trwy linell gymorth ffôn gwybodaeth gyhoeddus y Comisiwn.

Bydd templedi ar gyfer awdurdodau lleol ar gael hefyd i PAROs a LROs fedru cynnal eu hymgyrch codi ymwybyddiaeth etholiad eu hunain yn lleol. Cyhoeddir y templedi hyn mewn cymalau ar [www.dopolitics.org.uk](http://www.dopolitics.org.uk)

## Rheoliadau gwahardd Panel yr Heddlu a Throseddau

Cyflwynwyd Rheoliadau 2012 Panel yr Heddlu a Throseddau (Preseptau ac Apwyntiadau Prif Gwnstabl) o flaen y Senedd ar ddydd Iau 6 Medi. Bydd y rhai ohonoch a welodd fersiwn ddrafft gynharach o'r Rheoliadau efallai yn nodi y gwnaethpwyd rhai newidiadau.

Yn gyntaf, diwygiwyd gosodiad amserlen y presept drafft i sicrhau bod y dyddiadau cau yn cydfynd, cyn belled â phosibl, gydag amserlenni gosod cyllidebau lleol. Bydd yn ofynnol i'r PCC roi gwybod i'r PCP am eu cynnig presept erbyn 1 Chwefror. Bydd hyn yn galluogi'r PCC seilio eu cynnig presept ar wybodaeth mwy cywir ynglŷn ag ariannu, tra'n sicrhau bod gan y PCP gyfle i graffu'r cynnig.

Yn ail, mae gan y PCP yr hawl i wahardd apwyntiad o Brif Gwnstabl a gynigir. Yna bydd raid i'r PCC gynnig ymgeisydd wrth gefn i'w benodi. Diweddarwyd newidiadau i reoliadau fel bod y broses o graffu ymgeisydd wrth gefn i'w benodi fel prif gwnstabl yn cynnwys yr angen i'r PCP gynnal gwrandawriad o gadarnhad cyhoeddus ac i gyhoeddi ei adroddiad i'r PCC. Daw hyn â'r broses o graffu ymgeisydd wrth gefn yn gyson â'r broses a osodir yn y Ddeddf ar gyfer yr ymgeisydd cyntaf a gynigir, gan felly sicrhau bod yr holl ymgeiswyr ar gyfer penodiad prif gwnstabl yn profi'r un lefel o graffu.

Bydd nodiadau canllaw cryno yn egluro'r ddeddfwriaeth ynglŷn â phob un o'r gwaharddiadau yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

## Diweddariad ar ariannu Paneli'r Heddlu a Throseddau

Mae'r Llywodraeth wedi ei hymrwymo i ddarparu arian i ysgwyddo'r gost o gynnal Paneli'r Heddlu a Throseddau. Gall yr awdurdod lleol ar gyfer Panel Heddlu a Throseddau mewn ardal heddlu gael, yn flynyddol hyd at:

- £53,300 am gostau gweinyddu'r Paneli;
- £5,715 am gostau cyfieithu i'r Gymraeg ar gyfer Paneli yng Nghymru; a
- £920 mewn treuliau fesul aelod (uchafswm o 20 o aelodau Panel).

### 2012-13

Yn 2012-13 bydd y cyfansymiau a roddir i'r awdurdod lleol yn cael eu cywiro pro-rata gan y bydd Paneli ond yn gweithredu am ran o'r flwyddyn. I adlewyrchu'r gost y bydd awdurdod lleol ac aelodau yn ei wynebu wrth sefydlu'r Paneli fel eu bod yn barod ar gyfer cyrhaeddiad PCC ganol Tachwedd, cytunwyd i gywiro'r ariannu yn 2012-13 yn ôl i 10fed Hydref.

Gall yr awdurdod lleol gael hanner yr arian yn 2012-13 ar gyfer y cyfnod mis Hydref i fis Mawrth:

- £26,650 am gostau gweinyddu'r Paneli;
- £2,860 am gostau cyfieithu i'r Gymraeg ar gyfer Paneli yng Nghymru; a
- £460 mewn treuliau fesul aelod (uchafswm o 20 o aelodau Panel).

Darperir yr arian trwy gytundeb grant, a'i dalu fel ôl-daliad mewn un swm ym mis Mawrth 2013.

Yn y blynyddoedd sydd i ddod telir y grant mewn dau daliad bob flwyddyn o leiaf.

## Digwyddiad Cenedlaethol APCC - 11eg Medi

Roedd y digwyddiad briffio ar PCCs a gynhaliwyd ar 11eg Medi gan yr APCC yn llwyddiant; gyda dros 150 o fynychwyr yno. Rhoddwyd sylw i'r gynhadledd yn yr [Evening Standard](#) a stori gan y [Press Association](#). Rhoddwyd sylw i'r briffio cenedlaethol gan y BBC hefyd a chyfweld nifer o'r ymgeiswyr PCC.

I lawrlwytho'r cyflwyniadau a thafleini'r gweithdy cliciwch [yma](#).

## Gwefan ymgeiswyr APCC

Yn ddiweddar lansiodd APCC wefan gyda dolenni i wefannau ymgeiswyr, y gall y cyhoedd eu defnyddio i wirio beth mae eu hymgeiswyr PCC lleol yn ymgychu drosto. Gallwch ymweld â'r rhan ymgeiswyr [yma](#). Byddwn yn parhau i ddiwygio'r rhestr pan gawn gadarnhad bod gwefannau'r ymgeiswyr yn fyw.

Cewch lawrlwytho tabl o ymgeiswyr PCC [yma](#).

## Blog APCC

Ysgrifennodd y Farwnes Newlove o Warrington, Cefnogwr y Llywodraeth ar gyfer Cymunedau Gweithgar, Diogel, yn gyfyngedig i'r APCC ar sut gall PCCs weithio gyda'u gwasanaethau dioddefwyr lleol. Gallwch ddarllen ei herthygl [yma](#).

Am wybodaeth bellach am yr APCC cysylltwch â Joel Charles, Swyddog Cyfathrebu APCC, os gwelwch yn dda [joel.charles@apccs.police.uk](mailto:joel.charles@apccs.police.uk)

## PCCs a Chyfiawnder Ieuencid

**Ysgrifenna Marion Sandwell, o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, ynglŷn â gwaith timau troseddau ieuencid a chynllunio ar gyfer tirwedd gomisiynu'r dyfodol.**

Bu timau troseddau ieuencid (YOTs) (ers eu sefydlu fel cyrff statudol) ar flaen y gad wrth ddarparu rhaglenni ataliol ar gyfer pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid, ac yn elwa o gael trefniadau gweithio mewn partneriaeth cryf sy'n arwain at lwyddiant ar bob lefel.

I sicrhau y gall ariannu gwasanaethau atal troseddau ieuencid a dargedir yn eu hardaloedd lleol barhau i weithredu o dan y dirwedd gomisiynu, bydd raid i YOTs gysylltu gyda PCCs a'u dylanwadu.

Ers 2006/07 gwelodd y system cyfiawnder ieuencid leihad cynyddol yn y nifer o bobl ifanc yn dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuencid; yn y ddalfa a throseddau a gyflawnwyd.

Mae nifer o YOTs yn gweithio'n brysur i baratoi ar gyfer PCCs, gan gynnwys:

- Sefydlu "llais" oddi mewn i'r byrddau trawsnewid sy'n gweithio tuag at PCCs.
- Cwmpasu eu trefniadau gweithio i ganfod cyfleoedd cydweithrediadol a symleiddio gwasanaethau.
- Gweithio gyda'i gilydd mewn ardaloedd heddlu, yn hytrach na fel YOTs unigol.
- Blaenoriaethau partneriaeth a'r posibilrwydd o gyfleoedd i gynnwys y PCCs.
- Adolygu sut y bydd blaenoriaethau ymgeiswyr posib yn cael effaith ar drefniadau rhaglennu ac ariannu.
- Sut i roi cymorth i PCCs ddeall anghenion y bobl leol, trwy ddefnyddio dulliau cysylltu presennol.

Bu YOTs ynghyd â'u partneriaid (VCSE, Heddlu) ar flaen y gad wrth ailhyfforddi pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddau; atal troseddwyd tro cyntaf rhag mynd i mewn; lleihau aildroseddu; lleihau'r nifer o bobl ifanc yn y ddalfa - ni fyddai dim o'r rhain wedi bod yn bosib heb ymdrechion unedig i greu rhaglenni atal troseddau ieuencid â thystiolaeth.

## YOTs yng Nghymru

Bu i YOTs yng Nghymru gymryd dull cydweithrediadol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i sicrhau bod eu hamcanion strategol yn cael eu gosod yn gadarn yng nghynlluniau eu hawdurdodau heddlu lleol.

Mae Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuencid Cymru, sy'n gweithredu fel grŵp cyfeirio strategol aml-asiantaeth ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuencid ledled Cymru ac a gadeirir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, yn parhau i gefnogi cysylltiadau agosach gyda'r heddlu ledled Cymru, gan weithio mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru i gefnogi ac i ymestyn y defnydd o ddulliau amgenach o adfer yn hytrach na chyhuddo.

## Newyddion o Gymunedau Diogelach i'r Dyfodol

### Diweddariad WCVA

Cynhaliwyd digwyddiadau Cymunedau Diogelach i'r Dyfodol yn holl ardaloedd yr heddlu yng Nghymru gyda chyfraniadau gan y Swyddfa Gartref, awdurdodau'r heddlu, Cymunedau Diogelach i'r Dyfodol a'r prif Gyngor Gwirfoddol Sirol. Galluogodd y digwyddiadau hyn i amrywiol rwydweithiau o sefydliadau trydydd sector gael eu ffurfio, sef sefydliadau sydd yn ymwneud â gwaith diogelwch cymunedol yn gydffiniol â phob un o'r 4 PCC yng Nghymru. Bu i'r gweithgareddau gynnwys sesiwn Caffi Byd yn seiliedig ar astudiaeth SWOT o amgylch blaenoriaethau diogelwch cymunedol gan edrych ar gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau'r sector yng nghyd-destun y trawsnewid at Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd. Bydd y rhydweithiau yn bwynt cyswllt pwysig rhwng y trydydd sector a'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd.

Mae'r canlynol yn arweinwyr ar gyfer pob un o'r Cymunedau Diogelach i'r Dyfodol yng Nghymru:

Gogledd Cymru - John R Jones o Medrwn Môn ([john@medrwnmon.org](mailto:john@medrwnmon.org))

De Cymru - Alison Harris o Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful ([Alison.Harris@vamt.net](mailto:Alison.Harris@vamt.net))

Dyfed Powys – Hazel Lloyd-Lubran o Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion ([Hazel.Lloyd-Lubran@cavo.org.uk](mailto:Hazel.Lloyd-Lubran@cavo.org.uk))

Gwent - Mike Bridgman o Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent ([mike.bridgman@gavowales.org.uk](mailto:mike.bridgman@gavowales.org.uk))

Cynhelir digwyddiad hustyngau De Cymru gyda'r ymgeiswyr ar gyfer swydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru ar ddydd Mercher 24ain Hydref 2012 yng Nghanolfan Fusnes Orbit, Merthyr Tudful rhwng 3.30pm a 5.30pm. Dyma gyfle i glywed maniffestos yr ymgeiswyr, ac i sicrhau eu bod oll yn sylweddoli'r rhan y gall y trydydd sector ei chwarae mewn cefnogi diogelwch cymunedol.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â Phrosiect Cymunedau Diogelach i'r Dyfodol yng Nghymru, cysylltwch â Gaynor Davies, Swyddog Diogelwch Cymunedol, [WCVAgdavies@wcva.org.uk](mailto:WCVAgdavies@wcva.org.uk)

### Canolfan Adnoddau Merched (WRC)

Mae WRC wedi cynhyrchu tri sesiwn briffio ar sut i ddylanwadu ar y PCCs i gynnwys gwaith i ymdrin â thrais yn erbyn merched a genethod yn eu Cynlluniau Heddlu a Throsedd. I gael gwybod rhagor cysylltwch â Rebecca Veazy ar: [Rebecca@wrc.org.uk](mailto:Rebecca@wrc.org.uk)

Mae WRC, [End Violence Against Women](#) (EVAW) a [Rape Crisis](#) (Cymru a Lloegr) wedi cynhyrchu taflen ar gyfer sefydliadau merched i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â PCCs. [Edrychwch ar y daflen yma.](#)

Yn olaf, cynhaliodd WRC ddigwyddiad ar 20fed o Fedi ar gyfer sefydliadau merched o'r de ddwyrain sydd eisiau gwybod rhagor am yr etholiadau a'r ffordd orau i gysylltu gyda'r PCCs unwaith y byddant wedi cychwyn yn eu swyddi. [Ewch ar wefan WRC am fanylion y digwyddiad hwn.](#)

### Cynhadledd Genedlaethol ar Reoli Troseddwyr Integredig (IOM): Gorffennaf 2012

Cynhaliodd y Swyddfa Gartref gynhadledd genedlaethol ar Reoli Troseddwyr Integredig (IOM) a oedd yn cynnwys ffocws cryf ar rôl y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ar y 3<sup>ydd</sup> a'r 4<sup>ydd</sup> o Orffennaf 2012, yn y National Policing Improvement Agency, Ryton-on-Dunsmore, ger Coventry. Denodd y digwyddiad tua 200 o fynychwyr o amrediad o asiantaethau partneriaethol, yn

cynnwys yr heddlu, profiannaeth, carchardai, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol.

Daeth cyfraniadau gan amrediad o areithwyr cyweirnod gan gynnwys y Gweinidog dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol bryd hynny, Nick Herbert, AS, Stephen Greenhalgh, Dirprwy Faer Llundain dros Blismona a Throsedd, Juliet Lyon, CBE, Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, ac uwch gynrychiolwyr o'r Swyddfa Gartref, Gweinyddiaeth Gyfiawnder, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Cymdeithas Prif Swyddogion Profiannaeth, Cymdeithas Llywodraeth Leol a'r Sector Gwirfoddol.

Un o amcanion allweddol y gynhadledd oedd helpu i uchafu'r cyfraniad y gall IOM ei wneud yn lleol drwy leihau troseddau ac aildroseddu, ac i gysidro hyn yng nghyd-destun diwygiadau cyfiawnder troseddol ac iechyd y Llywodraeth, gan gynnwys cyrhaeddiad Comisiynwyr Heddlu a Throsedd.

Gosododd y gynhadledd rai o'r cyfleoedd a gynigiwyd gan IOM wrth symud ymlaen, gan gynnwys ymestyn aelodaeth y bartneriaeth drwy uchafu cysylltiad y sector gwirfoddol ac ymestyn y model lleol i gynnwys ffocws mwy pendant ar atal dechreuad troseddu a chynnydd ynddi.

Mae adroddiad y gynhadledd ar gael yn awr ar wefan y Swyddfa Gartref.

<http://www.homeoffice.gov.uk/publications/crime/reducing-reoffending/2012-iom-conference/IOM-Conference-report-2012>

## HMIC – Beth sy'n Gweithio

Mae Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi wedi datblygu cyfres o daflenni ffeithiau wedi ei hanelu'n bwrpasol at ymgeiswyr PCC. Mae tudalennau gwefan 'Beth sy'n Gweithio', sydd bellach ar gael ar wefan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Marwhydi trwy'r ddolen isod, yn rhoi crynodeb annibynnol i ymgeiswyr PCC o'r hyn sy'n gweithio mewn plismona.

<http://www.hmic.gov.uk/pcc/what-works-in-policing-to-reduce-crime/>

## Gwobrau Tilley

Rhoddir Gwobrau Tilley yn flynyddol, ac ers 14 o flynyddoedd buont yn cydnabod prosiectau dyfeisgar o frwydro yn erbyn troseddau ble mae'r heddlu, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd i ymdrin â phroblemau troseddol lleol. Roedd ceisiadau eleni yn ymdrin â phroblemau a oedd yn cynnwys troseddau ar raddfa fawr, trais gangiau, alcohol a throseddau cyffuriau ac ymddygiad anghymdeithasol.

Mae pleidlais gyhoeddus Gwobrau Tilley yn fyw yn awr.

Gallwch bleidleisio am eich hoff brosiect a roddwyd ar y rhestr fer drwy ymweld â gwefan Y Swyddfa Gartref yma <http://www.homeoffice.gov.uk/crime/partnerships/tilley-awards>. Anogwch gydweithwyr, cyfeillion a theulu i ymweld ac i bleidleisio hefyd.

Daw'r pleidleisio i ben ar 2il o Dachwedd a bydd y prosiect buddugol yn cael ei gyhoeddi gyda'r tri prif brosiect a ddyfarnir gan banel arbenigol ym mis Rhagfyr.

Gallwch bleidleisio drwy ddefnyddio eich ffôn symudol neu ffôn clyfar.

Rydym yn anfon bwletinau rheolaidd trwy gydol cyflwyniad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Cysylltwch â ni yn [PCCPartnersEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk](mailto:PCCPartnersEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk) i gael gwybod beth sy'n digwydd, beth sydd ar y gweill a'r cyfleoedd i chi gymryd rhan. Byddwn hefyd yn ymateb i unrhyw ymholiadau neu gwestiynau sydd gennych.

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau a chwestiynau trwy gydol y broses ddatblygu a gweithredu.